# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Mawrth 2017 i'w hateb ar 14 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan yr ailbrisio ardrethi busnes? OAQ(5)497(FM)

**2. Huw Irranca–Davies (Ogwr):** Pa ystyriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i rhoi i flaenoriaethu effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi fel rhan o bolisi seilwaith cenedlaethol yng Nghymru? OAQ(5)0504(FM)

**3. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo i gymryd camau i sicrhau cydraddoldeb o ran lefel buddsoddiad y llywodraeth ym mhob rhan o Gymru? OAQ(5)0506(FM)

**4. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ar gyfer pobl ar y sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru? OAQ(5)0509(FM)**W**

**5. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen waith Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru rhwng nawr a phan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0501(FM)

**6. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am addysg ôl-16 yng Nghymru? OAQ(5)0503(FM)

**7. David Melding (Canol De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau cyfranddaliadau cymunedol sy'n hyrwyddo mentrau ynni gwyrdd? OAQ(5)0500(FM)

**8. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyletswyddau Swyddogion Traffig yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0508(FM)**W**

**9. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gwrdd â Phrif Weinidog yr Alban i drafod y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0496(FM)**W**

**10.** **Gareth Bennett (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â'r diwydiant gwasanaethau ariannol i sicrhau buddsoddiad a swyddi yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0507(FM)

**11.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa sectorau diwydiant yr ymwelodd â hwy ar ei ymweliad diweddar â'r Unol Daleithiau? OAQ(5)0502(FM)

**12.** **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau ysbytai i bobl gogledd Powys? OAQ(5)0498(FM)

**13.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu maint y stoc tai fforddiadwy yng Nghaerffili? OAQ(5)0505(FM)**R**

**14.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei gynnig ar gyfer llywodraethu marchnad fewnol y DU yn y dyfodol? OAQ(5)0499(FM)

**15.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o berfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers ei roi o dan fesurau arbennig? OAQ(5)0510(FM)